# Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru

# Y Gwasanaeth Atal Twyll yn GIG Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Diben | 1 |
| Datganiad Polisi | 1 |
| Cefndir | 1 |
| Llywodraeth Cymru | 2 |
| Awdurdod Atal Twyll y GIG | 3 |
| Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru | 4 |
| Arbenigwyr Atal Twyll Lleol | 5 |
| Grŵp Llywio Atal Twyll | 7 |
| Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff GIG Cymru | 8 |
| Gwybodaeth / Rhannu Gwybodaeth | 9 |
| Menter Twyll Genedlaethol | 9 |
| Ffynonellau Sicrwydd Ychwanegol | 10 |
| Casgliad | 11 |
| Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Atal Twyll | 12 |
| Atodiad 2: Proses Sicrhau Ansawdd Atal Twyll | 13 |

# 1 Diben

1.1 Mae'r ddogfen hon wedi'i chynhyrchu i egluro adnoddau, rolau a chyfrifoldebau, strwythur gweithredol a llinellau adrodd atal twyll cyfredol GIG Cymru.

# 2 Datganiad Polisi

2.1 Ni fydd Llywodraeth Cymru yn goddef twyll, llwgrwobrwyo na llygredd (trosedd economaidd). Mae twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn GIG Cymru yn annerbyniol, oherwydd eu bod yn mynd â'r adnoddau pwysig a fwriedir ar gyfer darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

2.2 Er bod rheolaethau ar waith i atal troseddau economaidd, rhaid i'r rhain ddatblygu'n barhaus dros amser i adlewyrchu dysgu, cynnydd a dealltwriaeth o risgiau posibl newydd a gwendidau mewn systemau. Felly, canolbwynt adnoddau GIG Cymru fydd atal a chanfod gweithgarwch, lle y bo'r rhain yn debygol o gael yr effaith fwyaf.

2.3 Lle y bo tystiolaeth ddigonol yn bodoli, bydd GIG Cymru yn dilyn sancsiynau disgyblu, sifil neu droseddol priodol a bydd bob amser yn ceisio adennill unrhyw golledion a nodwyd, yn ogystal ag unrhyw gostau ymchwilio perthnasol. Bydd yr holl achosion troseddol yn cael eu cyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor cyfreithiol annibynnol ar addasrwydd camau erlyn.

2.4 Bydd cyrff iechyd yn gallu cadw unrhyw arian a adenillir.

# 3 Cefndir

3.1 Yn 2001, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen 'Atal Twyll yn GIG Cymru' a chyflwyno 'Cyfarwyddiadau i gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll' i bob corff iechyd yng Nghymru hefyd.

3.2 Arweiniodd hyn at greu Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, a'r angen i bob corff iechyd enwebu Arbenigwr Atal Twyll Lleol achrededig.

3.3 Yn ogystal, roedd y dogfennau hyn yn gosod telerau partneriaeth cydweithio gychwynnol ar atal twyll gyda Chyfarwyddiaeth Gwasanaethau Atal Twyll NHS England, a welodd gytundeb ar ddarparu nifer o swyddogaethau cymorth allweddol. Mae trefniant gweithio'r bartneriaeth wedi parhau, gan ddatblygu yn unol â'r amryw ad-drefniadau sydd wedi mynd rhagddynt yn NHS England ac yn GIG Cymru nes bod Gweinidogion Cymru'n ymrwymo i gytundeb gwasanaeth newydd ar 1 Tachwedd 2017 o dan Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru (2006), gyda'r Awdurdod Atal Twyll newydd yn NHS England.



# 4 Llywodraeth Cymru

4.1 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu a gweithredu strategaeth sydd wedi'i dylunio i sicrhau bod cyfradd troseddau economaidd yn GIG Cymru mor isel â phosibl, ac mae wedi rhoi tair lefel o adnoddau/arbenigeddau ar waith i ddarparu Gwasanaethau Atal Twyll yn GIG Cymru.

**Cymorth Arbenigol**

Awdurdod Atal Twyll y GIG

**Cymru Gyfan**

Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru

**Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth-au**


Arbenigwyr Atal Twyll Lleol

4.2 Sicrheir bod y strategaeth yn cael ei gweithredu'n ymarferol yn bennaf drwy gymryd camau yn y meysydd allweddol canlynol:

- Creu a chynnal diwylliant gwrth-drosedd economaidd
- Gwella'r gwaith o atal trosedd economaidd
- Atal trosedd economaidd na ellir ei rwystro, a hynny yn llwyddiannus
- Canfod trosedd economaidd na ellir ei atal, a hynny yn brydlon
- Ymchwilio proffesiynol i drosedd economaidd a ganfuwyd
- Sancsiynau effeithiol, gan gynnwys camau cyfreithiol priodol yn erbyn y rheiny sy'n cyflawni trosedd economaidd
- Dulliau effeithiol o gael iawndal mewn perthynas â cholled a nodwyd

4.3 Fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar risg, mae GIG Cymru hefyd yn comisiynu ymarferion mesur colledion ar feysydd gwasanaeth penodol yn y GIG e.e. gwasanaethau optegol. Nod yr ymarferion hyn yw nodi a mesur colledion neu risgiau posibl mewn systemau sydd ar waith, gan alluogi ymchwiliadau neu adolygiadau pellach a gweithredu newid i system pan fo angen. Yn ôl union natur yr ymarferion hyn, maent yn aml yn amlygu colledion posibl sy'n ganlyniad i 'afreoleidd-dra' neu 'gamgymeriadau' o'u cymharu â throseddau economaidd bwriadol neu bwrpasol. Lle mai dyma'r achos, caiff y materion eu cyfeirio at y corff priodol am gamau gweithredu pellach. Gallai hyn gynnwys adolygu'r systemau a'r prosesau sydd ar waith a, lle bo hynny'n briodol, y gwaith o adennill unrhyw golledion. Yn y nifer fach o achosion lle na fyddai adennill yn bosibl neu'n briodol, cofnodir colledion ac eir i'r afael â hwy yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog perthnasol a'r canllawiau a amlinellir yn Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwybodaeth glir am hyd a llwyddiant gwaith atal trosedd economaidd yn y GIG, ill dau yn y sector gofal sylfaenol a'r sector gofal eilaidd. Mae Rheolwr Gweithredol Twyll Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar weithgarwch atal twyll GIG Cymru, gwaith rhagweithiol, risgiau posibl a data cywir ar adnoddau a sancsiynau i Bwyllgor Archwilio a Risg Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.




4.5 Mae’r adnodd atal twyll presennol wedi’i deilwra at anghenion GIG Cymru, ac mae’n gost-effeithiol ac o fewn adnoddau Llywodraeth Cymru.

## 5 Awdurdod Atal Twyll y GIG

5.1 Ar 1 Tachwedd 2017, lluniodd Gweinidogion Cymru gytundeb gydag Awdurdod Atal Twyll y GIG, a oedd newydd ei sefydlu, o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006). Mae’r trefniant hwn yn nodi’r gwaith o ddarparu swyddogaethau cymorth atal twyll arbenigol i Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a’r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol mewn cyrff iechyd yn GIG Cymru. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Cymorth TG (gan gynnwys Systemau Gwybodaeth a Dadansoddeg)
- Gwybodaeth (gan gynnwys darparu’r Llinell Adrodd am Dwyll a Llygredd mewn cydweithrediad â Crime Stoppers.
- Gweithrediadau (gan gynnwys mynediad at Uned Cyfrifiadura Fforensig, darparu rhaglen sicrwydd ac arfarnu ar gyfer Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, mynediad at Ymgynghorwyr Twyll Deintyddol a rheoli gweithrediadau generig, arweiniad a chyfarwyddyd i Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru)
- Hyfforddiant a Datblygiad yng Ngwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru
- Cyfathrebu (gan gynnwys defnyddio cyhoeddusrwydd y cyfryngau, cynhyrchu erthyglau yng Nghymru a chynnal adran atal twyll benodol ar gyfer GIG Cymru ar wefan allanol Awdurdod Atal Twyll y GIG.
- Ansawdd a Chydymffurfiaeth (gan gynnwys asesiadau sicrwydd ansawdd blynyddol yn unol â Safonau Atal Twyll GIG Cymru
- Canllawiau (gan gynnwys darparu Llawlyfr Atal Twyll y GIG)
- Cydweithio â rhanddeiliaid (gan gynnwys aelodaeth o Grŵp Llywio Atal Twyll GIG Cymru)

5.2 Pennir cwmpas, ystod a nifer y swyddogaethau cymorth gan gytundeb blynyddol rhwng Gweinidogion Cymru ac Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r trefniant hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer manylu ar y safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

5.3 Mae Awdurdod Atal Twyll y GIG a Llywodraeth Cymru yn cydweithio yn rheolaidd i ddiweddaru, trafod ac ymgynghori ar faterion neu risgiau penodol sydd wedi codi ac a allai effeithio ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

5.4 Mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol yn manylu ar yr holl waith cymorth sydd wedi'i gwblhau ac sy'n mynd ymlaen yn GIG Cymru, ac mae hefyd yn amlinellu canlyniadau gwirioneddol ac arfaethedig i Weinidogion Cymru. Cynhyrchir adroddiad blynyddol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG bob blwyddyn hefyd ar ryddhau ei swyddogaethau cymorth atal twyll ar gyfer GIG Cymru dros y 12 mis diwethaf o bob blwyddyn adrodd. Rhennir yr adroddiadau hyn â Chyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru a'r Grŵp Llywio Atal Twyll.

5.5 Fel rhan o waith Awdurdod Atal Twyll y GIG i ddarparu ffocws clir ar atal ac ymchwilio i drosedd economaidd ledled y gwasanaeth iechyd, mae wedi cynhyrchu Llawlyfr Atal Twyll y GIG. Bwriadwyd y Llawlyfr i ymchwilwyr ar lefel genedlaethol a lleol yn wreiddiol, ac mae'n ceisio sicrhau y caiff dull cyson, yn ogystal ag arfer gorau yn unol â deddfwriaeth berthnasol, eu cymhwyso i bob ymchwiliad i drosedd economaidd a gynhelir ledled NHS England a GIG Cymru.

## 6 Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru

6.1 Lletyir Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n cyflogi'r tîm.

6.2 Mae tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn cynnwys ymchwilwyr profiadol sydd â'r brif rôl o ymchwilio i achosion cymhleth a difrifol posibl o drosedd economaidd, a allai fod ar raddfa fawr. Mae hyn yn cynnwys troseddau economaidd sy'n ymwneud â mwy nag un sefydliad, ymchwiliadau trawsffiniol a'r holl achosion o lygredd a llwgrwobrwyo yn GIG Cymru.

6.3 Mae rheolwr tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn cwblhau cynllun gwaith blynyddol yn seiliedig ar risg, sy'n nodi blaenoriaethau rhagweithiol ac sydd hefyd yn amlygu meysydd risg posibl ar gyfer y flwyddyn. Mae'r cynllun gwaith hwn yn seiliedig ar waith gwybodaeth gan Awdurdod Atal Twyll y GIG ac ar adolygiad o achosion parhaus, atgyfeiriadau a gwaith rhagweithiol yng Nghymru. Cyflwynir y cynllun gwaith i Bennaeth Gweithrediadau Awdurdod Atal Twyll y GIG i'w adolygu, a chaiff ei gymeradwyo hefyd gan y Grŵp Llywio Atal Twyll.

6.4 Mae'r tîm yn darparu adnodd ymchwilio annibynnol arbenigol i gyrff iechyd. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr sydd â'r nod o ymchwilio i achosion cymhleth ac adegau lle y gallai fod uwch weithredwyr neu aelodau o'r uwch dîm rheoli yn rhan ohonynt, fel rhywun dan amheuaeth neu fel tyst, i roi'r lefel o sicrwydd annibynnol angenrheidiol i gyrff iechyd.

6.5 Mae tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn darparu arweinydd gweithredol i GIG Cymru/Llywodraeth Cymru ac mae'n helpu i sicrhau dull cyson o atal troseddau economaidd ledled cyrff iechyd yng Nghymru. Er mai prif rôl y tîm yw darparu adnodd ymchwilio arbenigol adweithiol, mae hefyd yn rhoi cyflwyniadau rheolaidd i staff allweddol yn y GIG, mae'n amlygu risgiau posibl o droseddau economaidd i randdeiliaid allweddol, mae'n mynychu fforymau twyll cenedlaethol, mae'n cydweithio â'r cyfryngau yn rheolaidd ac mae hefyd yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant a fforymau arferion da i Arbenigwyr Atal Twyll Lleol.

6.6 Mae dull partneriaeth gydweithredol rhwng yr holl bartïon atal twyll yn GIG Cymru. Mae gan dîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru berthynas dda â'r timau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol ac mae'n darparu sgiliau ymchwilio arbenigol a chyngor ac arweiniad rheolaidd i rwydwaith o Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn GIG Cymru. Ar y llaw arall, mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn darparu rheolaeth gyffredinol, arweiniad a chyfarwyddyd i Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru mewn perthynas â materion gweithredol a hyfforddiant.

6.7 Mae cyflogwr tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, sef Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, wedi'i restru fel corff rheoleiddio o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002. Mae hyn yn galluogi Ymchwilwyr Ariannol achrededig yn nhîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru i gynnal ymchwiliadau ariannol yn ogystal ag i atal ac i adennill arian gan bersonau euog.

6.8 Mae tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru wedi'i awdurdodi i gynnal gwaith goruchwylio cyfeiriedig cudd o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyfyngu i waith goruchwylio statig yn unig.

6.9 Mae strwythur rheoli Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru am ei waith gweithredol yng Nghymru ac am ei effeithiolrwydd wrth gydymffurfio â Pholisi Atal Twyll Llywodraeth Cymru. Mae Rheolwr Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru hefyd yn adrodd i Bennaeth Cyllid Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar faterion cyllidebol.

6.10 Mae gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru drefniadau adrodd, cofnodi a goruchwylio clir a chyson ar waith yn GIG Cymru. Mae tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, Awdurdod Atal Twyll y GIG a Chyfarwyddwyr Cyllid perthnasol am unrhyw ddatblygiadau sylweddol ar achosion gweithredol. Mae'r tîm hefyd yn cynhyrchu adroddiad diweddaru achos chwarterol ar gyfer pob un o'i ymchwiliadau gweithredol ac mae'n ceisio hyrwyddo adroddiadau'r cyfryngau ar achosion priodol.

6.11 Caiff crynodeb chwarterol cyfunol o bob ymchwiliad gweithredol gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol ei gasglu gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac mae'n rhan o'r adroddiad chwarterol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG i Lywodraeth Cymru. Mae Rheolwr Llywodraethu a Sicrwydd Awdurdod Atal Twyll y GIG yn cynnal adolygiadau arolygu ac yn craffu ar weithgareddau tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru. Mae hyn yn debyg i'r trefniant adolygu ar gyfer y timau gweithredol cenedlaethol yn Awdurdod Atal Twyll y GIG.

## 7 Arbenigwyr Atal Twyll y GIG

7.1 Mae cyrff iechyd unigol yn gyfrifol am ymdrin â materion trosedd economaidd ar lefel leol. Felly, mae cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar atal twyll yn mynnu bod pob corff iechyd yn enwebu Arbenigwr Atal Twyll Lleol cymwys, sydd wedi'i gydnabod a'i achredu gan y Bwrdd Achrediad Proffesiynol Atal Twyll.

7.2 Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yw'r prif bwyntiau cyswllt ar gyfer yr holl faterion trosedd economaidd ym mhob corff iechyd. Mae eu gwaith yn cyd-fynd â darpariaeth y Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru), a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Caiff y safonau hyn eu rhannu'n bedair egwyddor allweddol:

**Llywodraethu Strategol**

- Cynhyrchu a darparu cynllun gwaith blynyddol sy'n seiliedig ar risg i atal trosedd economaidd yn y sefydliad. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun ei adrodd amdano a'i fonitro gan Gyfarwyddwr Cyllid a Phwyllgor Archwilio'r corff iechyd, a hynny'n barhaus.
- Cymryd rhan lawn ym mhroses Sicrhau Ansawdd Awdurdod Atal Twyll y GIG, gan gynnwys cwblhau hunan-adolygiad blynyddol o'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu'r Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru).
- Cwblhau'r holl hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol er mwyn cynnal statws Arbenigwr Atal Twyll Achrededig.
- Darparu gwybodaeth ac adroddiadau ad hoc a rheolaidd i Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, Awdurdod Atal Twyll y GIG a/neu Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

## Adrodd a Chynnwys

- Datblygu a gweithredu rhaglen waith barhaus i godi ymwybyddiaeth o risgiau o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn GIG Cymru, yn ogystal â'u goblygiadau, a ddyluniwyd i greu diwylliant trosedd gwrth economaidd cryf lle na oddefir gweithgarwch twyllodrus neu lygredig, a sicrhau bod staff a chontractwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i amddiffyn adnoddau'r GIG.
- Creu a gweithredu polisi a chynllun ymateb i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd ar gyfer y corff iechyd, sy'n sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r ffordd orau i adrodd am unrhyw amheuon neu bryderon a allai fod ganddynt, a'r camau a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad.
- Meithrin a chynnal perthnasau effeithiol â sefydliadau ac asiantaethau eraill, er mwyn cynorthwyo i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a chaniatáu i wybodaeth gael ei throsglwyddo mewn modd priodol a chyfreithlon er mwyn amddiffyn adnoddau cyhoeddus.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu cod ymddygiad y sefydliad. Mae hyn yn gosod safonau derbyniol i staff ac mae'n sicrhau y caiff unrhyw wrthdaro buddiannau posibl eu datgan ac yr eir i'r afael â hwy.
- Rhoi ar waith systemau a phrosesau a ddyluniwyd i fesur lefelau o ymwybyddiaeth o drosedd economaidd yn y sefydliad, a chymryd camau priodol yn y meysydd hynny lle mae angen gwneud gwaith pellach.

## Atal a Rhwystro

- Adolygu polisïau a gweithdrefnau perthnasol cyfredol a newydd i wneud yn siŵr eu bod yn addas ar gyfer atal colledion i'r pwrs cyhoeddus, ac i sicrhau yr eir i'r afael â risgiau trosedd economaidd sy'n dod i'r amlwg a gwendidau mewn systemau.
- Defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i nodi anomaleddau a allai ddangos twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r rhain.
- Cymryd rhan lawn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol, sef ymarfer bob dwy flynedd sy'n paru data yng nghyrff y sector preifat a'r sector cyhoeddus, yn ogystal â rhyngddynt, er mwyn nodi, atal a rhwystro taliadau twyllodrus ac anghywir.
- Datblygu mecanweithiau priodol er mwyn rhyddhau rhybuddion a hysbysiadau o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn brydlon i'r holl staff perthnasol a chymuned ehangach y GIG.
- Cwblhau gwaith rhagweithiol priodol mewn meysydd risg a nodwyd yn lleol ac yn genedlaethol, a ddyluniwyd i nodi meysydd o ddiffyg cydymffurfio neu risgiau trosedd economaidd posibl mewn systemau sydd ar waith.

- Ymchwilio i bob honiad o drosedd economaidd a ddyrannwyd mewn modd proffesiynol, yn unol â gofynion yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.
- Dilyn yn gyson yr ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael yn erbyn y rheiny a ganfuwyd eu bod wedi cyflawni trosedd economaidd yn y sectorau gofal sylfaenol a/neu eilaidd, gan gynnwys:
  - ◇ Troseddol
  - ◇ Disgyblu mewnol
  - ◇ Camau gan gorff allanol neu gorff rheoleiddio
  - ◇ Adennill sifil
- Defnyddio'n llawn offeryn electronig Awdurdod Atal Twyll y GIG ar gyfer casglu gwybodaeth, rhyddhau gwybodaeth a rheoli achosion (sef FIRST).

7.3 Caiff yr holl Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn GIG Cymru eu cyflogi gan gyrff iechyd yng Nghymru. Maent yn atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwyr Cyllid yn eu cyrff iechyd, ac maent yn adrodd i'w Pwyllgorau Archwilio priodol am ddarparu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

## 8 Y Grŵp Llywio Atal Twyll

8.1 Sefydlwyd y Grŵp Llywio Atal Twyll yn 2014, ac mae'n is-grŵp o Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru.

8.2 Rôl y Grŵp Llywio Atal Twyll yw rhoi trosolwg strategol ac adolygiadau o'r gwasanaeth atal twyll a ddarperir i GIG Cymru, a gwneud argymhellion ar gyfer newid i Lywodraeth Cymru ac i Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru i'w mabwysiadu.

8.3 Ar hyn o bryd, caiff y Grŵp ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gydag aelodaeth gyfredol sy'n cynnwys y canlynol:

- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
- Cynrychiolydd Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio GIG Cymru
- Cyfarwyddwyr Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

8.4 Yn ogystal â'i aelodaeth graidd, caiff cyfarfodydd y Grŵp Llywio Atal Twyll eu mynychu gan y canlynol hefyd:

- Rheolwr Gweithredol Twyll Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru
- Cynrychiolydd Awdurdod Atal Twyll y GIG
- Cynrychiolydd Arbenigwyr Atal Twyll GIG Cymru
- Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (Arsylwr)

8.5 Mae cylch gorchwyl llawn y Grŵp Llywio Atal Twyll wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1.**

# 9 Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff GIG Cymru

9.1 Un o'r pum prif amcan a nodwyd gan Awdurdod Atal Twyll y GIG yw arwain, cyfarwyddo a dylanwadu ar welliannau mewn safonau neu waith atal twyll. Elfen sylweddol o gyflawni hyn yw cynhyrchu ac adolygu'n flynyddol y Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff GIG Cymru, a gweinyddu'r broses sicrhau ansawdd sy'n cyd-fynd â hwy.

9.2 Mae'r Safonau hyn wedi'u datblygu i gefnogi GIG Cymru wrth weithredu mesurau priodol i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae cael mesurau priodol ar waith yn helpu i amddiffyn adnoddau GIG Cymru yn erbyn trosedd economaidd ac maent yn sicrhau y cânt eu defnyddio at y diben a fwriadwyd, sef darparu gofal cleifion. Cyfrifoldeb pob corff iechyd yw sicrhau bod ganddo'r adnoddau priodol i fodloni'r safonau gofynnol.

9.3 Caiff y Safonau eu hunain eu hamlinellu o dan y pedair egwyddor allweddol canlynol:

- Llywodraethu Strategol
- Adrodd a Chynnwys
- Atal a Rhwystro
- Dwyn i Gyfrif

9.4 Mae'r Safonau yn berthnasol i bob sefydliad yn GIG Cymru ac fe'u dyluniwyd i sicrhau y caiff gwaith atal twyll ei gwblhau yn unol â gofynion y cytunwyd arnynt. Mae'r prosesau asesu sy'n cyd-fynd â'r Safonau yn cynnwys dwy brif elfen:

- Hunan-adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn y Safonau, sy'n cael ei gwblhau gan bob corff iechyd a'i gyflwyno i Awdurdod Atal Twyll y GIG.
- Rhaglen o asesiadau ar y safle a gwblheir gan dîm Ansawdd a Chydymffurfio Awdurdod Atal Twyll y GIG, mewn partneriaeth â phob corff iechyd.

9.5 Mae crynodeb manylach o'r broses sicrhau ansawdd wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2.**



# 10 Gwybodaeth / Rhannu Gwybodaeth

10.1 Mae natur trosedd economaidd yn newid ac yn datblygu o hyd, ac mae risgiau newydd i GIG Cymru yn dod i'r amlwg drwy'r amser. Mae'r gwaith o rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid allweddol mewn modd priodol a chyfreithlon yn elfen bwysig o'r frwydr yn erbyn trosedd economaidd yn GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Uned Atal Twyll Adran Iechyd Lloegr
- Awdurdod Atal Twyll y GIG
- Gwasanaethau Atal Twyll NHS Scotland
- Gwasanaethau Atal Twyll NHS Northern Ireland
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Adran Atal Twyll Llywodraeth Cymru
- Fforwm Twyll Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

10.2 Mae Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru yn cynnal fforwm Arbenigwyr Atal Twyll Lleol bob chwe mis lle caiff tueddiadau economaidd a throsedd eu trafod a'u hadolygu. Caiff sesiynau datblygu hyfforddiant sgiliau allweddol ac arferion da eu trafod er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion datblygu proffesiynol parhaus. Caiff y fforymau eu mynychu'n dda gan Arbenigwyr Atal Twyll Lleol GIG Cymru ac maent yn gyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth ac i rwydweithio.

10.3 Mae Rheolwr Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac Arweinydd Sicrhau Ansawdd Awdurdod Atal Twyll y GIG dros Gymru hefyd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol. Mae hwn yn fforwm llai lle gellir trafod yn fanylach risgiau trosedd economaidd, gwaith rhagweithiol yn y sector gwasanaethau ymarferwyr a thueddiadau a blaenoriaethau sy'n datblygu.

# 11 Menter Twyll Genedlaethol

11.1 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer a gynhelir bob dwy flynedd, ac mae'n paru data rhwng cyrff sector preifat a sector cyhoeddus, gyda'r nod o nodi, atal a rhwystro taliadau twyllodrus, dyblyg neu anghywir posibl rhag pwrs y cyhoedd.

11.2 Caiff y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ei rhedeg gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'r holl gyrff iechyd yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr ymarfer. Ers sefydlu'r Fenter ym 1996, mae'r ymarfer wedi arwain at ganfod ac atal gwerth dros £30 miliwn o dwyll a gordaliadau yng



# 12 Ffynonellau Sicrwydd Ychwanegol

12.1 Yn ogystal â'r gwaith a wneir yn uniongyrchol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol, gall GIG Cymru elwa ar sicrwydd ychwanegol gan waith rhanddeiliaid eraill yn y GIG hefyd:

**Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Ffurfiwyd swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ym mis Ebrill 2011, ac mae'n darparu gwasanaethau archwilio mewnol, archwilio arbenigol ac ymgynghori dwyieithog i GIG Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu sicrwydd archwilio drwy asesu llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol mewn modd annibynnol a gwrthrychol.

Ni ddylid dibynnu ar y swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd i ganfod trosedd economaidd neu fathau eraill o afreoleidd-dra, ac nid oes disgwyl i'r swyddogaeth gael arbenigedd rhywun lle mai ei gyfrifoldeb pennaf yw canfod ac ymchwilio i dwyll.

Fodd bynnag, rhaid i archwilwyr mewnol gael gwybodaeth ddigonol i werthuso risg trosedd economaidd a'r modd y caiff ei reoli gan bob corff iechyd, a rhaid iddynt hefyd ystyried y posibilrwydd o drosedd economaidd a mathau eraill o afreoleidd-dra yn y gwaith maent yn ei wneud. Dylent geisio nodi gwendidau wrth reoli a allai alluogi twyll i ddigwydd a dylent gyfeirio unrhyw bryderon o ran twyll i Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru neu'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol. Cytunwyd ar brotocol wedi'i ddiweddaru ym mis Mai 2018 rhwng y swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru.

**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Mae swyddogaeth Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau Dilysu ar ôl Talu ar ran Byrddau Iechyd ledled Cymru. Gwneir gwiriadau Dilysu ar ôl Talu mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Fferylliaeth yn y Gymuned. Gwneir gwiriadau tebyg ar Wasanaethau Deintyddol yn GIG Cymru drwy gytundeb â Gwasanaethau Deintyddol y GIG, fel rhan o Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn Lloegr.

Diben y broses Dilysu ar ôl Talu/gwiriadau Gwasanaethau Deintyddol yw rhoi sicrwydd i'r Byrddau Iechyd bod hawliadau am daliadau a wnaed gan gontractwyr gofal sylfaenol yn briodol a bod y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r diffiniad ym manyleb gwasanaeth y GIG a deddfwriaeth berthnasol.

Bellach, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr adran Dilysu ar ôl Talu, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol i drafod materion trosedd economaidd posibl a'r broses dilysu ar ôl talu.

Lle bo gwaith dilysu ar ôl talu yn nodi unrhyw bryderon posibl o drosedd economaidd, bydd Cyfarwyddwr Cyllid y corff iechyd, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn cael gwybod am hyn ar unwaith. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol y corff iechyd yn trafod yr atgyfeiriad ac yn cytuno ar yr adnodd ymchwilio mwyaf priodol i gynnal ymholiadau cychwynnol i'r mater.



# 13 Casgliad

13.1 Mae twyll wedi'i nodi fel y trosedd y mae pobl yn fwyaf tebygol o'i brofi yn y DU, ac nid yw'r un unigolyn neu sefydliad yn ddiogel rhag y risg.

13.2 Mae trosedd economaidd yn y GIG yn annerbyniol, ac mae'n iawn ac yn briodol bod GIG Cymru yn amddiffyn ei hun rhag y lleiafrif a fyddai'n ceisio ei amddifadu o'i adnoddau, sy'n hanfodol bwysig i ddarpariaeth gofal o ansawdd uchel i gleifion.

13.3 Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng nghymuned GIG Cymru a thu hwnt, yn gwbl ymrwymedig i leihau cyfradd trosedd economaidd yn GIG Cymru gymaint â phosibl. Mae'r mesurau cadarn a'r trefniadau gweithio ar y cyd a fanylir yn y ddogfen hon yn amlinellu'r strwythurau, y systemau a'r prosesau cynhwysfawr sydd wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r nod hwn.



# **Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Atal Twyll

<table>
<tr><td>Diben</td><td>Rôl y Grŵp Llywio Atal Twyll yw rhoi trosolwg strategol ac adolygu’r Gwasanaeth Atal Twyll a ddarperir i GIG Cymru. Bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer newid fel y gall Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru eu mabwysiadu.</td></tr>
<tr><td>Awdurdod</td><td>Bydd y Grŵp Llywio Atal Twyll yn adrodd i Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru. Bydd cofnodion drafft y Grŵp yn cael eu hadrodd i’r Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod.<br><br>Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu bob blwyddyn o leiaf, a bydd yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru.</td></tr>
<tr><td>Cadeirydd</td><td>Bydd y Grŵp Llywio Atal Twyll yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyllid mewn sefydliad yn GIG Cymru.</td></tr>
<tr><td>Aelodaeth</td><td>Cadeirydd<ul><li>Cyfarwyddwr Cyllid sefydliad yn GIG Cymru</li></ul>Aelodaeth o’r Grŵp Llywio<ul><li>Llywodraeth Cymru, a gynrychiolir gan Bennaeth Rheolaeth Ariannol GIG Cymru</li><li>Cadeirydd Enwebedig Pwyllgor Archwilio yn GIG Cymru</li><li>Cyfarwyddwr Cyllid, PCGC</li><li>Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd, PCGC</li><li>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, PCGC</li><li>Cynrychiolydd Enwebedig o Grŵp Cyllid Cyfarwyddwyr GIG Cymru</li></ul>Yn bresennol<ul><li>Rheolwr Gweithredol Twyll, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru</li><li>Cynrychiolydd Enwebedig, Awdurdod Atal Twyll y GIG</li><li>Cynrychiolydd Enwebedig, Arbenigwyr Atal Twyll Lleol Cymru</li><li>Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol</li><li>Cyfreithiwr</li><li>Cynorthwyydd Personol Cyfarwyddwr Cyllid, PCGC (cymorth ysgrifenyddol)</li></ul>Sylwedydd<ul><li>Swyddfa Archwilio Cymru</li></ul></td></tr>
<tr><td>Amlder y Cyfarfod</td><td>Amlder cychwynnol y cyfarfod i’w bennu gan y Grŵp. Heb fod yn llai na chwarterol.</td></tr>
<tr><td>Prif gyfrifoldebau</td><td><ul><li>Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i’r Gwasanaethau Atal Twyll a ddarperir i GIG Cymru yn ei gyfanrwydd.</li><li>Datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer Gwasanaethau Atal Twyll ledled Cymru sy’n cwmpasu’r tri gofyniad canlynol:<ol><li>Cynnwys a rhoi gwybod i’r rhai sy’n gweithio i’r GIG neu sy’n defnyddio’r GIG am drosedd economaidd a sut i fynd i’r afael ag ef.</li><li>Atal a rhwystro trosedd economaidd yn y GIG rhag digwydd am y tro cyntaf neu am yr ail dro, a pherswadio’r unigolion hynny a allai gael eu denu i gyflawni trosedd economaidd i beidio â gwneud hynny.</li><li>Dwyn i gyfrif y rhai sydd wedi cyflawni trosedd economaidd yn erbyn y GIG.</li></ol></li><li>Canolbwyntio ar wella gwaith twyll rhagweithiol, gan gynnwys gwella’r canlynol:<ol><li>Cyfathrebu allanol, er mwyn addysgu a rhoi gwybod i gyflogeion a’r cyhoedd</li><li>Asesiad risg o dwyll</li><li>Dadansoddi data ac ymholi</li></ol></li><li>Sicrhau bod NHS Protect, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a Gwasanaethau Atal Twyll Lleol yn cael eu<br>cydlynu yn effeithiol ac y caiff y buddion o weithio ledled Cymru eu cynyddu i’r eithaf.</li><li>Cytuno ar y cynllun gwaith blynyddol ar gyfer Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru, a chymeradwyo hwn, mewn cydweithrediad ag NHS Protect.</li><li>Adolygu’r broses trefniadau adrodd ar gyfer Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru.</li><li>Derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru.</li><li>Adolygu canlyniadau’r broses sicrhau ansawdd ar gyfer cyrff iechyd ledled Cymru.</li><li>Adolygu’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a threfniadau cymorth a ddarperir gan NHS Protect i GIG Cymru.</li><li>Adolygu mesurau perfformiad ar gyfer NHS Protect, Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yng Nghymru.</li><li>Gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a/neu Gyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth.</li><li>Adolygu Cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru lle bo’n briodol ac argymell newidiadau.</li></ul></td></tr>
</table>

# **Atodiad 2:** Proses Sicrhau Ansawdd Atal Twyll

## 1 Cefndir

1.1 Swyddogaeth bwysig Awdurdod Atal Twyll y GIG yw sicrhau ansawdd y gwaith o ddarparu gwaith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn cael eu cyrraedd yn gyson.

1.2 Drwy ddefnyddio'r Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru), mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn cefnogi cyrff iechyd yng Nghymru drwy feincnodi, cynnal profion cydymffurfiaeth a gwerthuso effeithiolrwydd yn rheolaidd. Mae'r rhaglen sicrhau ansawdd yn galluogi'r gwaith o ddadansoddi tueddiadau a phatrymau mewn perfformiad ac mae'n rhoi sicrwydd cadarn i randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

1.3 Dangoswyd bod y rhaglen sicrhau ansawdd yn gwella safonau drwy ddefnyddio cynlluniau gofal wedi'u monitro, sy'n sicrhau bod y gwaith atal twyll a gwblheir yn lliniaru risgiau sydd wedi'u nodi'n lleol ac yn genedlaethol.

## 2 Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru)

2.1 Cynhyrchwyd y Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru) am y tro cyntaf ym mis Mai 2013, ac ers hynny maent wedi bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. Mae'r Safonau cyfredol yn berthnasol i bob sefydliad yn GIG Cymru, ac maent wedi'u dylunio i sicrhau y caiff mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd eu gweithredu yn unol â Chyfarwyddiadau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Atal Twyll y GIG (NHS Protect yn flaenorol) o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.2 Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 23 o Safonau sydd wedi'u datblygu i gefnogi sefydliadau'r GIG wrth weithredu mesurau priodol i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Maent wedi'u grwpio o dan y pedair egwyddor allweddol canlynol:

**Llywodraethu Strategol** – sy'n gosod y safonau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu strategol y sefydliad, gyda'r nod o sicrhau y caiff mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd eu gwreiddio ar bob lefel ledled y sefydliad.

**Adrodd a Chynnwys** - sy'n gosod y gofynion mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o risgiau twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn erbyn y GIG, a gweithio gyda staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i amlygu'r goblygiadau.

**Atal a Rhwystro** – sy'n gosod y gofynion mewn perthynas â pherswadio'r unigolion hynny a allai gael eu denu i gyflawni trosedd economaidd yn erbyn y GIG i beidio â gwneud hynny, a sicrhau bod y cyfleoedd i gyflawni trosedd yn cael eu lleihau.

**Dwyn i Gyfrif** – sy'n ymdrin â gofynion yn ymwneud â chanfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, gan gymhwyso'r sancsiynau priodol a cheisio iawn.

2.3 Mae'r rhaglen sicrhau ansawdd yn cynnwys dwy brif broses, sef sicrwydd ac asesu. Mae'r broses sicrwydd yn canolbwyntio'n bennaf ar hunan-adolygu blynyddol yn erbyn y Safonau, sy'n cael ei gwblhau gan y sefydliad a'i gyflwyno i Awdurdod Atal Twyll y GIG. Yna, caiff y broses asesu ei chwblhau gan dîm Ansawdd a Chydymffurfiaeth Awdurdod Atal Twyll y GIG mewn partneriaeth â'r sefydliad.

## 3 Hunan-adolygu

3.1 Caiff y broses hunan-adolygu ei hwyluso drwy gwblhau Offeryn Hunan-adolygu ar-lein, sy'n galluogi'r sefydliad i gynhyrchu crynodeb o'r gwaith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd a gwblhawyd dros y 12 mis diwethaf. Rhaid i bob corff iechyd gwblhau'r Offeryn Hunan-adolygu bob blwyddyn a'i gyflwyno i Awdurdod Atal Twyll y GIG o fewn amserlen benodol.

3.2 Mae'r Offeryn Hunan-adolygu yn defnyddio system goleuadau traffig, ac mae perfformiad yn cael ei asesu yn erbyn pob un o'r Safonau fel coch, oren neu wyrdd (RAG). Mae hyn, yn ei dro, yn cynhyrchu sgôr RAG gyffredinol ar gyfer pob egwyddor allweddol, a sgôr RAG derfynol ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar y sgoriau coch, oren a gwyrdd yn Adran 5.

## 4 Y Broses Asesu

4.1 Mae'r broses asesu yn ffordd o werthuso effeithiolrwydd pob bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael â'r risgiau twyll, llwgrwobrwyo a llygredd mae'n eu hwynebu, ac mae'n adolygu'r holl weithgareddau a wneir yn ystod y ddwy flynedd cyn dyddiad yr asesiad.

4.2 Caiff yr holl Hunan-adolygiadau eu hadolygu gan dîm Ansawdd a Chydymffurfiaeth Awdurdod Atal Twyll y GIG, a gwneir penderfyniad yn seiliedig ar risg ynghylch pa sefydliadau fydd yn derbyn ymweliad asesu, a pha un o'r pedwar asesiad fydd yn cael ei gynnal:

**Asesiad Llawn** – Byddai asesiad llawn fel arfer yn cael ei gynnal pan nodir bod trefniadau atal twyll sefydliad yn risg sylweddol, a bod angen asesu'r holl feysydd gweithgarwch allweddol a gaiff eu hamlinellu yn y Safonau.

**Asesiad â ffocws** – Byddai asesiad o'r fath yn cael ei gynnal mewn achosion lle nodir bod sefydliad naill ai'n dangos risg mewn maes penodol o weithgarwch atal twyll, neu'n dangos arfer effeithiol mewn un neu ragor o feysydd. Bydd asesiad â ffocws fel arfer yn cynnwys adolygiad o weithgarwch mewn llai na dau faes allweddol.

**Asesiad Thematig** – Byddai hwn fel arfer yn berthnasol i nifer o sefydliadau a gellir ei gynnal yn rhanbarthol neu ar draws sefydliadau o fath tebyg. Mae ffocws asesiad o'r fath yn debygol o fod yn weddol gul, o bosibl un Safon yn unig yn hytrach na maes allweddol cyfan.

**Asesiad a Sbardunwyd** – Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, gall sefydliadau gael eu dewis am asesiad wedi'i sbarduno. Caiff y rhain eu hysgogi gan risg sy'n dod i'r amlwg, sydd fel arfer o natur ddifrifol, a allai ddod i sylw'r tîm Ansawdd a Chydymffurfiaeth drwy gydweithrediad yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth â rhannau eraill o Awdurdod Atal Twyll y GIG neu Reolwr Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru. Os caiff sefydliad ei ddewis am asesiad a sbardunwyd, gall hyn naill ai fod yn asesiad llawn neu asesiad â ffocws.

4.3 Cyn unrhyw ymweliad asesu, bydd yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth yn rhoi gwybod i'r sefydliad am y dyddiad a'r math o asesiad a fydd yn cael ei gynnal, a bydd yn gofyn am wybodaeth gan y sefydliad mewn perthynas â'r meysydd a fydd yn cael eu hadolygu. Bydd yr wybodaeth hon yn galluogi'r Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth i lunio cwestiynau perthnasol ymlaen llaw, a chynorthwyo wrth adolygu tystiolaeth bellach a gesglir yn ystod yr ymweliad.

4.4 Yn ystod yr ymweliad, bydd yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth yn siarad â'r Arbenigwr Atal Twyll Arweiniol am y gwaith a gwblheir.  Yn dibynnu ar y maes ymholi a'r math o asesiad a gwblheir, efallai y bydd yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth yn dymuno siarad ag aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, yn ogystal ag unrhyw staff allweddol priodol.

4.5 Yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth a gesglir a'r cyfarfodydd a gynhelir yn ystod yr ymweliad, bydd yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth yn drafftio asesiad o berfformiad y sefydliad wrth gymhwyso'r Safonau a gynhwysir yn yr adolygiad, ynghyd ag unrhyw argymhellion perthnasol i'r sefydliad eu hystyried. Yna, caiff y sgoriau drafft a'r argymhellion eu trafod mewn cyfarfod olaf. Yn ystod y cam hwn, disgwylir y gellir cytuno ar y sgôr, yr argymhellion a'r camau arfaethedig.

4.6 Bydd adroddiad terfynol yn dilyn yr ymweliad â'r safle o fewn pedair wythnos. Bydd yr adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r ymweliad yn llawn, a bydd yn cynnwys y sgoriau a'r argymhellion a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod olaf. O fewn pedair wythnos arall, bydd disgwyl i'r sefydliad gwblhau cynllun gweithredu ar gyfer yr argymhellion a'i ddychwelyd at yr Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth.

4.7 Lle bo'r Uwch Arolygydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth yn ei gweld yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd rhaid cynnal ymweliad asesu pellach mewn rhai sefydliadau rhwng 9 a 12 mis yn dilyn yr ymweliad gwreiddiol. Ni ddylai'r ail adolygiad ond canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn dilyn yr adolygiad gwreiddiol, oni bai bod materion sylweddol wedi dod i'r amlwg yn y cyfamser.

# 5 Sgoriau Perfformiad

5.1 O ganlyniadau i'r broses sicrwydd a'r broses asesu, caiff sefydliadau eu sgorio ar lefel GOCH, OREN neu WYRDD, yn dibynnu ar ba mor dda maent wedi perfformio yn erbyn gofynion Awdurdod Atal Twyll y GIG.


5.2 Mae'r diffiniadau ar gyfer pob lefel perfformiad fel a ganlyn:

**COCH – Diffyg cydymffurfio**
Mae risg wedi'i nodi ond nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i liniaru hyn, neu mae'r camau a gymerwyd yn annigonol o ran eu cwmpas.

**OREN – Cydymffurfiaeth rannol, ond dim ond rhywfaint o effaith neu ddim effaith o gwbl ar y gwaith a wneir**
Mae risg wedi'i nodi ac mae camau wedi'u cymryd i liniaru'r risg. Mae tystiolaeth o gydymffurfiaeth drwy ganlyniadau. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd y gwaith a wneir wedi'i werthuso eto, neu nid oes gostyngiad o ran risg. Felly, ychydig iawn o dystiolaeth o'r canlyniadau sydd, neu nid oes tystiolaeth o ganlyniadau o gwbl.

**GWYRDD – Cydymffurfiaeth lawn, gan arddangos effaith y gwaith**
Mae risg wedi'i nodi, mae gwaith wedi'i gwblhau ac mae effeithiolrwydd y gwaith wedi'i fesur. Mae'r risg wedi'i lliniaru, neu mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth liniaru'r risg. Felly, mae canlyniadau yn bresennol.

5.3 Gall sefydliadau sy'n gallu bodloni gofynion Awdurdod Atal Twyll y GIG ac sy'n gallu rhoi tystiolaeth o hyn drwy werthusiadau, bennu bod y perfformiad yn **WYRDD** ar gyfer y Safon honno. Bydd sefydliadau a all roi tystiolaeth bod y gweithgaredd wedi'i gwblhau, ond na all ddangos bod y gweithgaredd wedi'i asesu ar gyfer effeithiolrwydd, yn pennu bod y perfformiad yn **OREN** ar gyfer y Safon honno. Bydd angen i sefydliadau nad ydynt wedi cwblhau unrhyw weithgareddau neu nad ydynt wedi dangos tystiolaeth o weithgareddau digonol bennu perfformiad yn **GOCH.** Bydd pob sgôr a geir ar gyfer pob safon yn cyfrannu at sgôr gyffredinol ar gyfer y maes gweithgarwch allweddol perthnasol, yn ogystal â sgôr sefydliadol ar gyfer cyflawni yn erbyn y safonau.


CYDWEITHIO
STAFF AWDURDOD ATAL TWYLL Y GIG
SICRWYDD BLYNYDDOL
RISG A/NEU ANGHENION LLEOL
OFFERYN HUNAN-ADOLYGU WEDI'I ANFON AT AWDURDOD ATAL TWYLL Y GIG
DOLEN I SAFONAU
AWDURDOD ATAL TWYLL Y GIG A GWYBODAETH REOLEIDDIO
WEDI GWERTHUSO DOGFENNAU
ADRODDIAD CENEDLAETHOL
MEINCNODI
BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL AWDURDOD ATAL TWYLL Y GIG
OES ANGEN ASESIAD?
NAC OES
OES
DIM CAMAU PELLACH
UWCH AROLYGYDD ANSAWDD A CHYDYMFFURFIAETH YN GOFYN AM AC YN ADOLYGU'R DYSTIOLAETH OFYNNOL AR Y MATH O ASESIAD (THEMATIG, LLAWN NEU Â FFOCWS)
TREFNU DYDDIAD GYDA'R SEFYDLIAD AM YMWELIAD Â'R SAFLE (CYSWLLT PERSONOL)
ASESIAD A SBARDUNWYD
YMWELIAD Â'R SAFLE / ASESIAD O'R SAFLE
TRAFOD CANFYDDIADAU Â'R SEFYDLIAD
CYNHYRCHU ADRODDIAD
CYFLWYNO ADRODDIAD (SEFYDLIAD, AWDURDOD ATAL TWYLL Y GIG, ARBENIGWR ATAL TWYLL YR ARDAL)
CYDWEITHIO